## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

# Nodau Polisi ac Effeithiau Bwriadedig

Mae fêps yn ddyfeisiau sy'n cael eu pweru gan fatri sy'n gwresogi hylif (nicotin fel arfer, er bod hylifau heb nicotin ar gael hefyd) i gynhyrchu aerosol sy'n cael ei anadlu i mewn. Fe'u gwerthir ar ffurf y gellir eu hailddefnyddio ac ar ffurf untro. Mae'r fêps untro yn cael eu categoreiddio fel rhai na ellir eu hailwefru na'u hail-lenwi ac sydd wedyn yn cael eu taflu pan fyddant yn rhedeg allan o fatri neu e-hylif.

Mae ein deddfwriaeth yn cynnig gwahardd fêps untro (y fersiynau nicotin a'r fersiynau heb nicotin) i fynd i'r afael â'r pryderon amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r cynhyrchion hyn yn sylweddol a'u gwaredu yn amhriodol. Bydd fêps y gellir eu hailddefnyddio yn parhau i fod ar gael.

Prif nod – Mynd i'r afael â phryderon amgylcheddol

Mae'r cynnydd ym mhoblogrwydd fêps untro, wedi arwain at gynnydd sylweddol o ran faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'r adnoddau a ddefnyddir i wneud y cynhyrchion hyn. Yn sgil hynny, bu pryder cynyddol ynghylch eu heffaith amgylcheddol. Yn 2023, amcangyfrifodd ymchwil gan Material Focus fod dros 5 miliwn o fêps untro naill ai'n cael eu taflu'n sbwriel neu eu taflu i ffwrdd mewn gwastraff cyffredinol bob wythnos yn y DU, bron i bedair gwaith cymaint â'r flwyddyn flaenorol.

Pan fydd fêps untro yn cael eu taflu'n sbwriel, maent yn cyflwyno plastig, halwynau nicotin, metelau trwm, plwm, mercwri a batris lithiwm ion fflamadwy i'r amgylchedd naturiol. Gall y cemegau hyn halogi dyfrffyrdd a phridd a gallant hefyd fod yn wenwynig ac yn niweidiol i fywyd gwyllt. Pan fyddant yn cael eu taflu'n sbwriel, gall y casys plastig ddadelfennu'n ficroblastigau niweidiol. Canfu arolygon a gynhaliwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus (KWT) gynnydd sydyn ym mhresenoldeb fêps untro yn ein hamgylchedd. Rhwng 2023/24, canfuwyd fêps untro ar 10.2% o strydoedd ledled Cymru, gydag amcangyfrif o 6700 o fêps yn cael eu taflu'n sbwriel ar ein strydoedd ar unrhyw un adeg.

Manteision iechyd ychwanegol

Yn ogystal â'r effaith amgylcheddol sylweddol, deallir bod fêps untro yn sbarduno cynnydd diweddar mewn fepio gan bobl ifanc. Mae data'n dangos bod nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio fêps wedi treblu yn ystod y tair blynedd diwethaf. Am eu bod yn cynnwys nicotin ac am nad ydym yn gwybod pa niwed hirdymor y gallent ei achosi, mae yna risg bod fêps yn niweidio iechyd plant ynghyd â risg o ddibyniaeth. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 5% o ddysgwyr oed uwchradd yn defnyddio fêps yn

wythnosol gyda fêps untro y math mwyaf cyffredin o ddyfais a ddefnyddir gan blant a phobl ifanc.

Mae Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru, *Siapio ein Hiechyd*, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, yn tynnu sylw at yr angen i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag mynd yn gaeth i nicotin.

### Y tymor hir

Mae fêps untro nodweddiadol yn cynnwys plastig, copr, cobalt, a batri lithiwm. Mae lithiwm a chobalt yn ddeunyddiau crai pwysig sy'n hanfodol i gynhyrchu dyfeisiau electronig, batris a chynhyrchu ynni. Mae'r galw cynyddol am fêps untro yn arwain at fwy o alw am y deunyddiau crai hanfodol hyn. Amcangyfrifir bod cyfanswm y fêps untro a brynir bob blwyddyn yn cynnwys digon o lithiwm i ddarparu batris ar gyfer 5,000 o gerbydau trydan.

Dyma wastraff o adnoddau gwerthfawr mewn cynnyrch sydd ag oes fer, sy'n cael ei ailgylchu'n wael, ac sydd â dewis arall y gellir ei ailddefnyddio ar gael yn hawdd. Yn ogystal â cholli adnoddau, mae effeithiau amgylcheddol drwy echdynnu deunydd crai, cynhyrchu a gweithgynhyrchu fêps untro. Yn fwyaf nodedig, mae hyn yn cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr a defnydd dŵr a gynhyrchir wrth eu gweithgynhyrchu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i symud tuag at economi fwy cylchol, lle rydym yn symud o fodel "cymryd, gwneud a gwaredu" i un lle rydym yn gwerthfawrogi deunyddiau a pharhau i'w defnyddio. Drwy leihau faint o wastraff rydym yn ei gynhyrchu, gallwn helpu i ddiogelu ein bywyd gwyllt a'n hecosystemau er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

Mae ein deddfwriaeth hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau ein bod yn “ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn”.

### Atal

Drwy symud pobl tuag at gynhyrchion fepio y gellir eu hailddefnyddio, y gellir eu hailgylchu'n haws, byddwn yn helpu i atal y risgiau sy'n gysylltiedig â gwaredu fêps untro yn amhriodol a'r difrod amgylcheddol y gall hyn ei achosi.

Drwy dynnu'r cynhyrchion hyn o'r farchnad, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd camau uniongyrchol i atal niwed i iechyd plant a phobl ifanc, a allai fod yn agored i niwed yn sgil bod yn gaeth i nicotin, sylweddau gwenwynig, a llygredd amgylcheddol sy'n deillio o fêps untro yn cael eu taflu'n sbwriel.

### Integreiddio

Mae ein cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar nodau *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*. Mae mynd i'r afael â llygredd plastig yn amddiffyn ac yn gwella ardaloedd lleol, a

thrwy hynny yn gwella iechyd a lles (**Cymru gydnerth, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru o gymunedau cydlynus**).

Mae cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu'n sbwriel yn aml yn dadelfennu'n ficroblastigau, a all fynd i mewn i'r gadwyn fwyd anifeiliaid a phobl. Mae lleihau faint o blastig sy'n ein hamgylchedd felly'n cyfrannu at **Gymru iachach**. Mae Cymru eisoes yn arwain y byd ar ailgylchu ac mae ein rheoliadau arfaethedig yn gam ychwanegol tuag at symud i ffwrdd o weithgynhyrchu a gwaredu cynhyrchion untro diangen. Bydd hyn yn cyfrannu at ein nodau ehangach o fynd i'r afael â heriau byd-eang yr argyfyngau hinsawdd a natur (**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**). Mae diogelu ecosystemau naturiol a bioamrywiaeth yn gwella cyfalaf diwylliannol Cymru ac yn cefnogi gweithgareddau awyr agored. Wrth i ni ddatblygu ein cynigion, byddwn yn sicrhau safonau cyfartal o ran dulliau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg (**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**).

Wrth i Gymru symud oddi wrth gynhyrchion untro, mae cyfleoedd yn codi i fusnesau Cymru arloesi a datblygu dewisiadau amgen cynaliadwy i'r cynhyrchion untro rydym yn eu defnyddio heddiw (**Cymru lewyrchus**).

## Cydweithredu, Cynnwys Eraill ac Effaith

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon ymgynghoriad pedair gwlad ar *Creu cenhedlaeth ddi-fwg a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc* a oedd yn rhedeg o fis Hydref-Rhagfyr 2023. Dangosodd yr ymatebion i ymgynghoriad y pedair gwlad gefnogaeth glir i gyfyngiadau ar werthu a chyflenwi fêps untro. O'r ymatebion a ddaeth i law yng Nghymru, cytunodd 60.4% y dylai'r cyfyngiadau ar fêps untro fod ar ffurf gwahardd eu gwerthu a'u cyflenwi.

Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriad yn 2023, aethom ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid ychwanegol wedi'u targedu dros sawl mis yn 2024. Roedd y gwaith ymgysylltu hwn yn canolbwyntio ar effeithiau ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth, y canlyniadau cadarnhaol, negyddol neu anfwriadol posibl a chamau lliniaru.

Roedd yr holl waith ymgysylltu yn cadw at ein hymrwymiadau o dan Erthygl 5.3 Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco (FCTC). Mae hyn yn sicrhau bod ein polisïau rheoli tybaco yn cael eu diogelu rhag buddiannau masnachol a breiniedig eraill y diwydiant tybaco.

## Costau, Arbedion a Mecanweithiau

Bydd goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth hon yn cael eu nodi yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol pe cytunir ar gyflwyno rheoliadau.